**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

ELGC(5)-24-18 Papur 10

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths, AM
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

14 Medi 2018

Annwyl John

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Awst yn gofyn imi egluro ymateb Llywodraeth Cymru i rai o argymhellion eich Pwyllgor yn yr adroddiad ar sicrhau bod yr economi yn gweithio i bobl ar incwm isel yng Nghymru.

Gofynnoch am eglurder ynghylch pam nad yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen strategaeth benodedig i drechu tlodi. Mae ein Strategaeth Genedlaethol *Ffyniant i Bawb* yn darparu fframwaith ar gyfer mynd ati ar draws y Llywodraeth i gynyddu ffyniant a mynd i'r afael ag achosion tlodi mewn ffordd fwy effeithiol a chydgysylltiedig.

Rydym am osgoi cael strategaethau ar wahân nad ydynt yn ymdrin â materion cymhleth mewn ffordd holistaidd. Dim ond drwy weithredu mewn ffordd gydgysylltiedig y gallwn drechu tlodi yn effeithiol yn yr hirdymor. O ran mesur cynnydd, bydd y Dangosyddion Cenedlaethol sy'n sail i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn helpu i fesur y cynnydd a wnawn fel gwlad i gyflawni ein saith nod llesiant.

Bydd llawer o'r dangosyddion hyn yn ein helpu i asesu'r cynnydd a wnawn o ran trechu tlodi. Er enghraifft, byddant yn mesur tlodi cymharol, amddifadedd materol, lefelau cyflogaeth a ffyrdd iach o fyw ymhlith pethau eraill.

Ers datganoli, mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno amrywiaeth o strategaethau, polisïau a rhaglenni i hybu ffyniant, ac i atal a lliniaru tlodi. Fodd bynnag, er hynny, nid ydynt ar y cyfan wedi trawsnewid y sefyllfa o ran tlodi. Mae'n tlodi yn faes lletchwith ac mae'n parhau i fodoli yng Nghymru.

Roedd yn glir mai drwy ymyrryd yn yr hirdymor wrth gynyddu cyfalaf dynol, cryfhau ein seilwaith a hybu ein heconomi yw'r ffordd orau inni drechu tlodi.

Yn sgil hynny, pan ddaeth y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi i ben yn 2016, penderfynwyd peidio â'i adnewyddu. Teimlwyd na ddylai strategaeth ar wahân bennu'r ffordd yr awn i'r afael â thlodi; dylai fod wrth wraidd y ffordd y mae llywodraeth a'i phartneriaid yn gweithio ac yn cyflenwi dros bobl Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gan gydnabod bod lleihau lefelau tlodi a thyfu ein heconomi yn ddibynnol ar ei gilydd, penderfynwyd defnyddio ein Strategaeth Genedlaethol Ffyniant i Bawb i nodi'r camau gweithredu hynny y byddwn yn eu cymryd fel Llywodraeth i sicrhau'r amodau a'r cyfleoedd i bobl a chymunedau lwyddo a ffynnu, yn enwedig o safbwynt ariannol. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn nodi gweledigaeth hirdymor sy'n gosod y sylfeini ar gyfer sicrhau mwy o gyfleoedd cyfartal a dosbarthiad tecach o incwm ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ymrwymiadau sylfaenol y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi – i atal tlodi, yn enwedig drwy fuddsoddi mewn rhoi'r dechreuad gorau mewn bywyd i blant; i helpu pobl i wella eu sgiliau, gan gydnabod mai'r ffordd allan o dlodi yw drwy gyflogaeth; i weithredu i liniaru effeithiau tlodi heddiw – i gyd yn rhan o'n Strategaeth Genedlaethol.

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus a nodir i gyhoeddi strategaeth tlodi plant sy'n nodi amcanion a chamau gweithredu ar gyfer trechu tlodi yng Nghymru.

Mae amcanion Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru yn bellgyrhaeddol ac mae'n nodi dull holistaidd o fynd ati i wella canlyniadau ar gyfer aelwydydd incwm isel gan ganolbwyntio ar deuluoedd cyfan a'u cymunedau. Maent yn hoelio sylw ar leihau nifer y plant sy'n byw mewn aelwydydd lle nad oes unrhyw un yn gweithio drwy wella sgiliau rhieni a phobl ifanc, a thrwy leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau mewn perthynas ag addysg, iechyd a'r economi. Bydd hyn yn creu economi gref a marchnad lafur gadarn, ac yn ffordd o gynyddu incwm aelwydydd.

Mae ein Strategaeth Genedlaethol yn ein helpu i gyflawni amcanion ein Strategaeth Tlodi Plant statudol ac mae pob Ysgrifennydd y Cabinet a phob Gweinidog yn gyfrifol am sicrhau bod y gwaith hwnnw yn mynd rhagddo.

Yn ail, gofynnoch a fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried dadansoddi'r risgiau a'r buddiannau sy'n gysylltiedig â datganoli'r gwaith o weinyddu Credyd Cynhwysol.

Gwrthododd Llywodraeth Cymru'r argymhelliad hwn ar y sail nad yw o blaid datganoli budd-daliadau lles na'r broses o'u gweinyddu i Gymru. Fel mater o egwyddor, dylem i gyd fod yn medru hawlio'n gyfartal o'n gwladwriaeth les. Dylai anghenion dinasyddion y DU, lle bynnag y bônt yn byw, gael eu diwallu'n gyfartal. Wrth ddatganoli budd-daliadau lles i Lywodraeth yr Alban, trosglwyddwyd y risg ariannol sy'n gysylltiedig â'r ffaith bod y galw am fudd-daliadau lles wedi cynyddu'n gyflymach fesul person yn yr Alban nag yn Lloegr ers datganoli. Byddai hyn yn risg ariannol sylweddol i Gymru.

Fel y nodir yn ein hymateb gwreiddiol, mae Llywodraeth Cymru yn dymuno gweld pob person sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yn cael dewis sut y mae'r Credyd hwnnw yn cael ei dalu iddo drwy opsiynau talu hyblyg. Byddai'r opsiynau hyn yn golygu y gwneir taliadau yn fwy aml nag unwaith y mis, gyda chostau tai yn cael eu talu'n uniongyrchol i'r landlord a thaliadau wedi'u rhannu ar gyfer y sawl sy'n dymuno hynny.

Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, caiff Credyd Cynhwysol yn gyffredinol ei dalu bob mis fel ôl-daliadau. Mae hyn yn cynnwys yr elfen dai, gyda hawlwyr yn gyfrifol am wneud taliadau i'w landlordiaid i dalu eu costau tai. Mae rheoliad 47 o Reoliadau Credyd Cynhwysol, Taliad Annibyniaeth Personol, Lwfans Ceisio Gwaith a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (Hawliadau a Thaliadau) 2013 (SI 2013/380) yn darparu ar gyfer hynny. Lle bo'n briodol, mae modd i daliadau gael eu gwneud i rywun ar ran yr hawlydd dan reoliad 58 o SI 2013/380. Mae'r cynllun ar gyfer Trefniadau Talu Amgen wedi'i sefydlu dan y ddarpariaeth hon.

I unigolion a chyplau sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ar hyn o bryd, mae gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) sawl ffordd o gefnogi'r hawlwyr sydd fwyaf agored i niwed drwy'r broses Trefniadau Talu Amgen. Gall y Trefniadau hyn olygu:

- bod yr elfen Costau Tai o'r Credyd Cynhwysol yn cael ei thalu'n uniongyrchol i landlord;
- bod Credyd Cynhwysol yn cael ei dalu'n fwy aml nag unwaith y mis; a
- bod taliadau Credyd Cynhwysol yn cael eu rhannu ar gyfer cyplau.

Wrth ddechrau hawlio Credyd Cynhwysol, rhaid i bawb gael cyfweliad wyneb yn wyneb gyda'u Hanogwr Gwaith yn y Ganolfan Waith. Yn y cyfarfod cychwynnol hwn pan fydd manylion unrhyw hawliad am Gredyd Cynhwysol yn cael eu dilysu, megis gwybodaeth am rentu, mae mecanwaith yn ei le i'r Anogwr Gwaith ddechrau trafodaeth gyda'r hawlydd ynglŷn â sut y bydd y Credyd Cynhwysol yn cael ei dalu, neu a oes angen defnyddio Trefniadau Talu Amgen.

Er enghraifft, bydd yn gofyn i'r hawlydd a oedd ei Fudd-dal Tai yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'w landlord yn flaenorol, neu a oes ganddo ôl-ddyledion rhent dros gyfnod o ddau fis. Os oedd yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r landlord a bod ganddo ôl-ddyledion o'r fath, bydd yr Anogwr Gwaith yn ei gyfeirio at gael Trefniant Talu Amgen. Byddai hyn fel ar arfer yn golygu y byddai'r Credyd Cynhwysol ar gyfer talu costau tai yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r landlord.

Mae sefyllfaoedd eraill hefyd yn gallu sbarduno trafodaethau am Drefniadau Talu Amgen rhwng yr Anogwr Gwaith a'r hawlydd, er enghraifft:

- pan fo'r hawlydd yn gofyn am daliad ymlaen llaw ac wedi gofyn am Gymorth Cyllidebu Personol;
- os yw amgylchiadau'r hawlydd wedi newid sy'n golygu ei fod wedi sicrhau tenantiaeth ar ôl bod yn ddigartref;
- os oes gan y cwsmer unrhyw broblemau iechyd meddwl neu os yw'n ei chael yn anodd rheoli cyllideb (gallai hynny olygu gofyn am Dalebau Banc Bwyd);
- mewn rhai amgylchiadau bydd y landlord yn gofyn yn awtomatig am 'daliad a reolir' sy'n golygu y bydd yn cael yr arian yn uniongyrchol i dalu costau tai os yw'n ymwybodol bod gan yr hawlydd hanes o ôl-ddyledion rhent NEU er mwyn osgoi mynd i ddyledion rhent;

Mae DWP wedi esbonio nad dyma'r unig enghreifftiau o sgyrsiau a all sbarduno trafodaethau am Drefniadau Talu Amgen gyda'r hawlydd. Gellir eu cynnal unrhyw bryd yn ystod y cyfnod y bydd yr unigolyn/cwpwl yn hawlio Credyd Cynhwysol.

Mae'r Gweinidog Tai ac Adfywio wedi ysgrifennu dro ar ôl tro at y DWP yn gofyn iddo ystyried mynd ati'n rhagweithiol i roi mwy o wybodaeth am y dewisiadau 'talu' hyn i hawlwyr yng Nghymru. Fe'i cynghorwyd bod y broses ar gyfer Trefniadau Talu Amgen yn ei lle at y diben hwn. Fodd bynnag, ymddengys fod hanes o anghysondeb yn y ffordd y mae'r DWP wedi bod yn gweithredu'r Trefniadau Talu Amgen ar draws Cymru. Mae'r Gweinidog hefyd wedi gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau sicrhau bod Cymorth Cynhwysol yn cael ei ddarparu mor eang â phosibl i helpu'r bobl hynny sy'n ei chael yn anodd rheoli eu harian a defnyddio technoleg ddigidol.

I ategu fy ymateb blaenorol, rydym bellach wedi sefydlu Bwrdd ar y cyd gyda'r DWP i edrych ar faterion sy'n ymwneud â gweithredu'r Credyd Cynhwysol. Gallaf gadarnhau y bydd y Bwrdd hwn, fel mater o flaenoriaeth, yn edrych ar unrhyw gamau pellach y gellir eu

cymryd i sicrhau bod pobl yn fwy ymwybodol o'r Trefniadau Talu Amgen, yn enwedig landlordiaid, gwasanaethau cynghori a sefydliadau yn y trydydd sector sy'n cefnogi pobl agored i niwed, gan gynnwys y sector digartrefedd a thai.

Nid yw Llywodraeth yr Alban yn gweinyddu taliadau Credyd Cynhwysol ond yn hytrach cânt eu gweinyddu gan Lywodraeth y DU drwy'r DWP. Yn dilyn Comisiwn Smith, mae adrannau 29 a 30 o Ddeddf yr Alban 2016 wedi rhoi ychydig o bwerau i Lywodraeth yr Alban i fod yn hyblyg mewn perthynas â rhai agweddau ar dalu Credyd Cynhwysol yn yr Alban. Gelwir hynny yn Hyblygrwydd Credyd Cynhwysol. Yn gryno, mae'r pwerau hyn yn caniatáu i Lywodraeth yr Alban:

- amrywio pa mor aml y mae'r taliadau yn cael eu gwneud;
- talu'r costau tai perthnasol o'r Credyd Cynhwysol a ddyrennir yn uniongyrchol i'r landlord;
- pennu'r meini prawf pan fydd taliadau yn cael eu rhannu rhwng hawlwyr ar y cyd; a
- diwygio sut y mae'r costau tai yn cael eu cyfrifol ar gyfer hawlwyr sy'n byw mewn llety rhent, gan gynnwys amrywio'r lleihad yn y cymhorthdal ystafell sbâr.

Dim ond ar ôl i'r taliad cyntaf o Gredyd Cynhwysol gael ei wneud y gellir gweithredu'r opsiynau hyblyg hyn, a dim ond os nad oes Trefniant Talu Amgen yn cael ei ystyried ar gyfer yr hawlwyr yn unol â meini prawf cymhwysedd y DWP.

Yn drydydd, gofynnoch pam nad oedd Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad 2 yn llwyr. Rwy'n cydnabod barn y Comisiwn bod darparu canlyniadau a cherrig milltir clir yn helpu i wireddu'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi a'r Cynllun Cyflogadwyedd. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod angen inni sicrhau cysondeb wrth ddarparu adroddiadau ar gynnydd o fewn y fframwaith cyffredinol a ddarparwyd ar gyfer y ddau gynllun a'n gweithgareddau ehangach drwy'r Strategaeth Genedlaethol Ffyniant i Bawb. Mae'n bwysig ein bod yn ystyried argymhelliad 2 ymhellach o fewn y cyd-destun hwnnw, a dyna pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn yn llwyr ar yr adeg hon.

Gofynnoch hefyd am fanylion pellach am sut y bydd y strategaeth leoli yn adleoli swyddi i ardaloedd yng Nghymru a fydd yn colli cyllid strwythurol yr UE, ac a oes unrhyw fwriad i adolygu'r strategaeth honno.

Wrth lunio cynlluniau ar gyfer ystâd swyddfeydd ein hunain yn y dyfodol, rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i gael swyddfeydd ar draws Cymru er mwyn sicrhau y gall pawb elwa ar hynny drwy gynnig swyddi yn genedlaethol. Bydd hynny hefyd yn sicrhau ein presenoldeb ledled y wlad. Mae ein strategaeth yn sicrhau bod ein ystad weinyddol wedi'i lleoli ar draws prif ardaloedd daearyddol Cymru gyda swyddfeydd modern mawr wedi'u sefydlu ym Merthyr Tudful, Bedwas, Aberystwyth, Caerfyrddin, Abertawe, Caernarfon, Cyffordd Llandudno a Chaerdydd. Nid oes unrhyw fwriad yn y tymor canolig i newid y lleoliadau hyn, ond rydym yn edrych ar y posibilrwydd o gael swyddfa ym Mhowys ac yng Nghymoedd y De yn y dyfodol.

Yn ogystal â chanolbwyntio ar ein swyddfeydd ein hunain, rydym hefyd yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar ei strategaethau lleoli. Yn dilyn cyhoeddiad a datblygiad Canolfan Llywodraeth y DU yng nghanol Caerdydd, rydym yn edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu ail ganolfan yng Nghymru. Rydym hefyd yn trafod ei Strategaeth Adleoli Cyrff Cyhoeddus sy'n ystyried symud nifer o gyrff cyhoeddus ac asiantaethau o Lundain a'r De-ddwyrain i fannau eraill o'r DU er mwyn gweld a oes modd i rai ddod i Gymru. Drwy waith y Gweithgor Asedau Cenedlaethol sy'n hoelio sylw ar wneud y defnydd

gorau o ystad ehangach y sector cyhoeddus yng Nghymru, rydym hefyd yn ystyried sut y gall y cynlluniau hyn ein helpu i gyflawni ein nodau ehangach i adfywio'r economi.

Gofynnoch hefyd am wybodaeth am y Bwrdd Gwaith Teg a byddaf yn gofyn i Julie James, Arweinydd y Tŷ, ymateb ichi am hynny. Byddaf hefyd yn gofyn i Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, ysgrifennu ichi mewn ymateb i'ch cais am ymatebion manwl i argymhellion 14 - 16 yn dilyn cyhoeddi'r adolygiad caffael.

Rydych wedi gofyn am ymrwymiad inni ddarparu ymatebion manwl i argymhellion 18, 20, 21 a 22 ar ôl i'r Comisiwn Gwaith Teg gwblhau ei waith. Gwnaeth y Comisiwn gyfarfod am y tro cyntaf ar 10 Awst. Ar sail tystiolaeth a dadansoddiad gofynnwyd i'r Comisiwn wneud argymhellion i hyrwyddo ac annog gwaith teg yng Nghymru. Gofynnwyd i'r Comisiwn ystyried eich argymhellion fel rhan o'i waith dadansoddi a chasglu tystiolaeth. Gofynnwyd hefyd i'r Comisiwn ystyried a gwneud argymhellion ynghylch sut y gallwn ysgogi ac annog taliadau o'r cyflog byw gwirfoddol. Mae disgwyl iddo gyflwyno adroddiad erbyn mis Mawrth 2019.

Yn olaf, gofynnoch imi fanylu ar ganlyniadau'r Symposiwm llwyddiannus a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf. Roedd llawer o wneuthurwyr polisïau, pobl academaidd, cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant yn bresennol yn y digwyddiad. Roedd wedi galluogi arbenigwyr i adolygu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag datblygu mewn swyddi llai crefftus a swyddi â thâl isel, ac ystyried y dystiolaeth ar sut i hyrwyddo datblygiad.

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn drafftio adroddiad ar hyn o bryd a fydd yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb yn ffurfiol i argymhellion yr adroddiad hwnnw ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.

Yn y cyfamser, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cwrdd â chyrff allweddol yn sector yr economi sylfaenol i edrych ar anghenion presennol y gweithlu a'r rheini a ragwelir yn y dyfodol, yn ogystal â chael cyngor gan arbenigwyr eraill, i ystyried pa gymorth y dylid ei ddarparu yn y dyfodol.

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport